Ein Hiechyd Ein Dyfodol | Our Health Our Future

**Help us shape the future of health and care in Maesteg**



# Diweddariad ar Ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg

### Medi 2024

## Dyfodol Iach Maesteg

Mae gweithgarwch wedi parhau yn gyflym dros y 6 mis diwethaf ac rydym yn falch o adrodd ar gynnydd sylweddol tuag at ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg, sy’n werth miliynau o bunnoedd, yn ganolbwynt iechyd, gofal a lles integredig.

I’ch atgoffa, mae canolbwynt iechyd, gofal a lles integredig yn cynnwys ystod o wasanaethau clinigol a gofal eraill, gan gynnwys o bosibl Canolfan Gofal Brys ac opsiynau gwelyau, yn ogystal â darpariaeth gwasanaethau awdurdod lleol a thrydydd sector ar y safle, fel gwasanaethau iechyd meddwl.

Yn gadarnhaol, ac yn bwysig, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £500,000 ychwanegol i ni ym mis Gorffennaf 2024 i gwblhau’r holl arolygon angenrheidiol a gweithgareddau eraill i’n helpu i gwblhau’r ddau (o dri) achos busnes cyntaf yn y flwyddyn ariannol gyfredol hon (2024/25).

Rydym wedi cychwyn yn ffurfiol ar Gam 1 RIBA o’r broses ddylunio ar nifer o opsiynau gyda’n Partner Cadwyn Gyflenwi, Kier Construction, y disgwyliwn ei gwblhau yn gynnar ym mis Hydref 2024.

Yn syml, mae Cam 1 RIBA yn galluogi ein Penseiri i rannu eu gweledigaeth a’u bwriadau ar gyfer ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg, gan ystyried adborth cymunedol, a dechrau manylu ar ganlyniadau’r prosiect a’r gofynion gofodol. Ar y cam hwn, bydd y gyllideb prosiect ofynnol yn dod yn gliriach, cynhelir arolygon helaeth o'r safle a chwblheir rhaglen ac amserlen fwy manwl ar gyfer y gwaith ailddatblygu.

Unwaith y bydd Cam 1 RIBA wedi’i gwblhau, byddwn yn trafod yr opsiynau hyn yn ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru i ddeall yn fanylach y gyllideb gyfalaf sydd ar gael i gadarnhau bod ein cynllun arfaethedig yn fforddiadwy. Yn ogystal, byddwn yn gweithio’n agos gyda thimau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i sicrhau bod gennym yr arian (refeniw) a gweithlu medrus iawn ar gael i ddarparu’r gwasanaethau pwysig hyn yn lleol.

Ar ôl hynny, ac yn seiliedig ar adborth Llywodraeth Cymru, byddwn yn dechrau ar Gam 2 RIBA, lle byddwn yn debygol o symud ymlaen ag un opsiwn yn unig drwy'r broses ddylunio.

Rydym yn dal yn bwriadu cynnal digwyddiad arall yn ddiweddarach eleni, neu yn gynnar yn 2025, i roi cyfle i chi drafod ymhellach ac i roi adborth ar eich barn, gan gynnwys ar unrhyw ddyluniad arfaethedig ar gyfer y safle. Rydym yn cymryd eich barn o ddifrif, ac yn ymgorffori'r rhain yn ein ffordd o feddwl lle y gallwn.

Byddwn yn cysylltu'n agos â chynrychiolwyr lleol a grwpiau cymunedol ar y dyddiad gorau ar gyfer ein digwyddiad nesaf i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn mynychu ac i sicrhau ei fod yn cael cyhoeddusrwydd mor eang â phosibl.

## Dweud eich dweud

Gyda'ch help chi, mae gennym restr helaeth o grwpiau cymunedol y gallwn ni ymgysylltu â nhw - diolch! Rhowch wybod os oes grwpiau a sefydliadau eraill y dylem fod yn ymgysylltu â nhw fel rhan o ddigwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol fel y gallwn eu cynnwys yn y sgwrs.

## Rhagor o wybodaeth

Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau, neu geisiadau am ragor o wybodaeth cyn ein diweddariad nesaf, mae croeso i chi gysylltu:


- Dale Stolzenberg, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Gweithredol - Dale.Stolzenberg@wales.nhs.uk
- Natasha Weeks, Pennaeth Ymgysylltu ac Ymwneud - Natasha.weeks2@wales.nhs.uk


**Dyddiad briffio nesaf – Tachwedd 2024**

**Diolch am eich adborth a'ch cefnogaeth barhaus wrth i ni ddatblygu ein cynllun ymgysylltu cymunedol ar gyfer Ysbyty Cymunedol Maesteg.**